ffilm
CYMRU WALES



# CADEIRYDD

## PECYN SWYDD

# CROESO

**Croeso a diolch am ddangos diddordeb yn y rôl hon fel Cadeirydd Ffilm Cymru Wales.**

Eleni, yn dilyn cyfnod o ddau dymor o arweinyddiaeth graff pan fu'r cwmni'n tyfu ac yn esblygu yn erbyn cefndir o newid ac aflonyddwch yn y diwydiant, bydd ein Cadeirydd presennol, yr Athro Ruth McElroy, yn rhoi'r gorau i'r swydd.

Wrth inni groesawu'r bennod nesaf yn stori Ffilm Cymru Wales, rydyn ni'n chwilio am unigolyn eithriadol i arwain y Bwrdd a'r uwch dîm i gefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer y byd ffilm yng Nghymru.

Ffilm Cymru Wales yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau o Gymru ac ers ei sefydlu yn 2006 mae'r sector yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol. Rydyn ni'n falch o'r rôl y mae Ffilm Cymru Wales wedi'i chwarae wrth feithrin talent creu ffilmiau o Gymru, cefnogi arddangoswyr, ac eirioli dros y sector ffilm yng Nghymru a thu hwnt.

ffilm CYMRU WALES



Rydyn ni'n gweithredu fel Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC), gan dderbyn cyllid fel dirprwy Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n ein galluogi i gefnogi gwneuthurwyr ffilmiau a aned ac sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac arddangoswyr ledled Cymru. Rydyn ni hefyd yn derbyn arian y Loteri Genedlaethol gan Sefydliad Ffilm Prydain (BFI) i redeg Rhwydwaith BFI Cymru sy'n cefnogi gwneuthurwyr ffilmiau newydd.

Ers 2022 rydyn ni wedi darparu cronfa cynhyrchu ffilmiau Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru. Mae'r bartneriaeth hon wedi ennyn mwy o ddiddordeb a chyllid ar gyfer ffilmiau yng Nghymru yn ogystal â chyfleoedd fel rhaglen Sinema Cymru, cydweithrediad cyffrous rhwng Ffilm Cymru Wales, Cymru Greadigol ac S4C sydd â'r nod o ddatblygu ffilmiau nodwedd Cymraeg eu hiaith.

Rydyn ni hefyd yn arloesol ac yn flaengar yn ein cydweithrediadau. Mae ein gwaith gyda Media Cymru (Strength in Places, Ymchwil ac Arloesi yn y DU) wedi arwain at lansio Cymru Werdd, rhaglen waith sydd, drwy ymchwil, hyfforddiant a chyllid Ymchwil a Datblygu, yn mynd ati i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol a chwmnïau'r sector sgrin yng Nghymru i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050.



Yn y cyfamser, drwy ein [gwaith hyfforddiant]() rydyn ni wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghasnewydd ac Abertawe i gynnig pecyn blwyddyn o hyfforddiant a chymorth i gymunedau nad ydyn nhw o bosibl yn meddwl bod y diwydiannau creadigol ar eu cyfer hwy.

Ac wrth inni edrych i'r dyfodol yn hyderus, rydyn ni'n ymwybodol o'r anawsterau sy'n wynebu'r diwydiant ffilm a'r heriau ehangach sy'n gysylltiedig â chyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau. Yn y blynyddoedd i ddod bydd angen i ni fod yn fwy creadigol, yn fwy arloesol, yn fwy cydweithredol ac yn fwy gwydn nag erioed wrth i ni wynebu a goresgyn y rhwystrau sydd o'n blaenau.

Rydyn ni felly yn chwilio am Gadeirydd sydd â:

- profiad, hygrededd a chysylltiadau yn y diwydiant
- yn gyfarwydd â thirwedd ehangach y cyfryngau yng Nghymru
- brwdfrydedd a'r pŵer creadigol i gofleidio'r gwaith sydd o'n blaenau
- y gallu i ddylanwadu ac eirioli i rai sy'n gwneud penderfyniadau a chyllidwyr, gan gefnogi llwyddiant hirdymor Ffilm Cymru Wales
- ein gwerthoedd cyffredin a'n hangerdd i hybu sector ffilm dwyieithog ffyniannus yng Nghymru.

Byddwn hefyd yn recriwtio ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd eleni. Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y rôl hon hefyd, rhowch wybod yn eich llythyr eglurhaol.

Os hoffech chi gysylltu â ni i drafod y rôl hon, anfonwch e-bost i mi: lee@ffilmcymruwales.com. Edrychwn ymlaen at glywed gennych,

**Lee J. Walters**
**Prif Weithredwr, Ffilm Cymru Wales**



# RÔL Y CADEIRYDD

**Sefydliad** Ffilm Cymru Wales

**Rôl** Cadeirydd

**Lleoliad** Caerdydd/Hyblyg

**Sector** Ffilm

**Ymrwymiad Amser** 6-8 cyfarfod Bwrdd y flwyddyn yn ogystal â chyfarfodydd a digwyddiadau ad hoc ar ran Ffilm Cymru Wales.


**Cyflog** Di-dâl, ond caiff treuliau wrth gyflawni dyletswyddau eu had-dalu. Mae cydnabyddiaeth hefyd ar gael i Gyfarwyddwyr Bwrdd na fydden nhw fel arall yn gallu ymgymryd â'r mathau hyn o rolau.

**Hyd y Tymor** 3 blynedd (uchafswm o ddau dymor, yn amodol ar gytundeb)

**Dyddiad Cychwyn** Tymor yr hydref 2024

**Ymgeisio** Oni bai ein bod wedi cytuno i chi ddefnyddio fformat gwahanol i gyflwyno cais, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol drwy e-bost i hayley@ffilmcymruwales.com yn nodi pryd ydych ar gael a'ch profiad a'ch sgiliau yn erbyn y rhai sydd wedi'u hamlinellu yn y fanyleb hon.

**Dyddiad y Cais** 9 Gorffennaf 2024, 16:00



# Y RÔL

- Rhoi arweiniad i Ffilm Cymru Wales a'i Fwrdd, gan sicrhau ei fod yn cael effaith yng Nghymru a thu hwnt;
- Meithrin perthynas waith gref a chefnogol gyda'r Prif Weithredwr, gan sicrhau eu bod yn cael eu dwyn i gyfrif am gyflawni amcanion strategol y cytunwyd arnyn nhw;
- Cefnogi'r Prif Weithredwr a'r uwch dîm i gyflawni nodau, amcanion a gweledigaeth Ffilm Cymru Wales;
- Sicrhau bod y sefydliad yn cael ei lywodraethu'n effeithiol;
- Sicrhau bod y bwrdd yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau;
- Cynorthwyo i recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd yn ôl yr angen;
- Cadeirio hyd at wyth cyfarfod bwrdd y flwyddyn a sicrhau bod pob cyfarfod yn cael ei lywodraethu'n gywir a bod cofnodion cywir yn cael eu cadw.
- Cymeradwyo cyllideb flynyddol Ffilm Cymru Wales a goruchwylio sefydlogrwydd ariannol a thwf y cwmni;
- Gweithredu fel 'Awdurdod Dirprwyedig' neu gynrychiolydd a enwir fel arall os oes angen.
- Adolygu nodau strategol a busnes y cwmni a'i gynllun i'w cyflawni fel a ddarperir gan y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm;
- Cydgysylltu â'r Prif Weithredwr i gadw trosolwg o waith Ffilm Cymru Wales, gan ddarparu cymorth yn ôl yr angen;
- Gweithredu fel llysgennad i Ffilm Cymru Wales ac eirioli dros y sector ffilm yng Nghymru;
- Adeiladu a meithrin perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid allweddol;
- Hyrwyddo ymrwymiad Ffilm Cymru Wales i gwmni a sector cynhwysol;
- Cynorthwyo gwaith Ffilm Cymru Wales tuag at fod yn sefydliad amgylcheddol gyfrifol.

# SGILIAU, GALLUOEDD A RHINWEDDAU PERSONOL

**Meini Prawf Hanfodol**

- Profiad o lywodraethu a gweithio fel rhan o Fwrdd Cyfarwyddwyr;
- Yr hyder a'r gallu i Gadeirio Bwrdd Cyfarwyddwyr;
- Dealltwriaeth ac arbenigedd yn y sector ffilm, a dealltwriaeth o dirwedd ehangach y diwydiannau celfyddydol a chreadigol yng Nghymru;
- Wedi ymrwymo i gefnogi sector ffilm dwyieithog;
- Dealltwriaeth o sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus a'u rhwymedigaethau rheoleiddiol;
- Profiad o gymeradwyo cyllidebau a dogfennau strategol;
- Siaradwr cyhoeddus hyderus a pherswadiol.
- Agored, tryloyw, agos-atoch a gweladwy.
- Sgiliau rhwydweithio a dylanwadu, ac yn gallu datblygu a chynnal perthnasoedd ar lefel uwch.

**Meini Prawf Dymunol**

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Profiad o gadeirio Bwrdd;
- Eirioli dros y diwydiant ffilm neu ddiwydiant creadigol cysylltiedig gan gynnwys ar lefel y llywodraeth.

Noder mai'r bwriad yw y bydd y sawl a benodir yn cael y fantais o gyfnod pontio gyda'r Cadeirydd sy'n gadael.

ffilm CYMRU WALES

# SUT I WNEUD CAIS

Oni bai ein bod wedi cytuno i chi ddefnyddio fformat gwahanol i gyflwyno cais, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol i Hayley Lau - Hayley@ffilmcymruwales.com - yn nodi eich profiad a'ch sgiliau yn erbyn yr hyn sydd wedi'i amlinellu ym manyleb y person isod.

Cewch gyflwyno cais yn Gymraeg neu Saesneg.

**Cyflwynwch eich cais erbyn 16:00 ar 9 Gorffennaf 2024.**

Nid yw Ffilm Cymru Wales yn noddwr trwyddedig ar gyfer VISAs ac felly mae'n rhaid bod eisoes gennych Hawl i Weithio yn y DU er mwyn gwneud cais am y rôl hon.




ffilm CYMRU WALES

# CYMORTH MYNEDIAD

Credwn mewn sector sy'n gweithio i bawb ac rydyn ni'n angerddol am ehangu mynediad i'r sector sgrin.

Byddwn yn cynnig sicrwydd o gyfweliad i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl ac sy'n arddel hunaniaeth Pobl y Mwyafrif Byd-eang, Pobl Dduon, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, neu bobl F/byddar, trwm eu clyw, Anabl neu niwroamrywiol.

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn niwroamrywiol, a phobl sydd wedi colli eu golwg, mae cymorth ar gael i gyflwyno cais. Cysylltwch â ni i roi gwybod i ni sut y gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, cymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau gwahanol ar gyfer gwneud cais fel ceisiadau fideo neu ddec sleidiau. Cawn ein harwain gennych chi.

Cysylltwch â Hayley Lau ar Hayley@ffilmcymruwales.com i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.



# AR ÔL I CHI WNEUD CAIS

Byddwch yn derbyn cadarnhad bod eich cais wedi'i dderbyn o fewn wythnos i'w gyflwyno a chewch ddolen i ffurflen monitro amrywiaeth, sy'n ein helpu yn ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae gan bob cwestiwn opsiwn 'gwell gen i beidio â dweud'. I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru Wales yn prosesu data ymgeiswyr, gweler ein Polisi Preifatrwydd.

Cewch glywed a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad cam cyntaf o fewn pythefnos i ddyddiad cau'r cais.

Gall addasiadau recriwtio gael eu gwneud ar unrhyw gam o'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr. Cysylltwch â Hayley@ffilmcymruwales.com i drafod.



# GWRTHDARO BUDDIANNAU

Bydd gofyn i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a phroffesiynol a allai wrthdaro, neu y gellir ystyried eu bod yn gwrthdaro, â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a rolau o awdurdod y tu allan i rôl Ffilm Cymru Wales. Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei archwilio yn y cyfweliad.

Os cewch eich penodi, efallai y bydd gofyn i chi ddatgan y buddiannau hyn yn flynyddol ac, os oes angen, mewn cyfarfodydd bwrdd yn y dyfodol.



ffilm CYMRU WALES




**Ffilm Cymru Wales**
**W2, Wellington House**
**Stryd Wellington**
**Caerdydd CF11 9BE**

**@FfilmCymruWales**
**www.ffilmcymruwales.com**